Manylion

Teitl yr ymgynghoriad: **Gwasanaethau Plant yn y Dyfodol Digidol**

At: Alun Thomas, Ysgrifennydd, S4C

Enw'r person sy'n ymateb: GWERFYL PIERCE JONES

Cynrychiolir (hunan neu sefydliad/au)/ Teitl Swydd:

CYFARWYDDWR CYNGOR LLYFRAU CYMRU

Oes modd i chi nodi eich oedran os o dan 16 mlwydd oed:

Cyfeiriad (os heb ei dderbyn trwy e bost): CYNGOR LLYFRAU CYMRU, CASTELL BRYCHAN, ABERYSTWYTH, CEREDIGION SY23 3SP
castellbrychan@cllc.org.uk

Cyfrinachedd / Datganiad

Beth ydych yn dymuno i S4C gadw'n gyfrinachol?

Dim	☐	Enw /Manylion Cyswllt / Teitl Swydd / Oedran	☐
Ymateb	☐	Sefydliad	☐

Os hoffech ran o'ch ymateb, eich enw, neu eich sefydliad i fod yn gyfrinachol, a all S4C barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, ar gyfer unrhyw ddarnau cyfrinachol, crynodeb cyffredinol na fyddai'n datgelu gwybodaeth benodol na galluogi rhywun i'ch adnabod)? Serch hyn, bydd yr holl ymatebion yn cael eu rhannu gyda'r Adran dros Ddiwylliant , Cyfryngau a Chwaraeon i roi gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn cynorthwyo'r broses o benderfynu ar y Gwasanaeth Newydd

Drwy nodi beth hoffem gadw yn gyfrinachol uchod, rwy'n cadarnhau fod yr ohebiaeth a ddarperir gyda'r ddalen flaen yn ymateb ymgynghorol ffurfiol. Gellir ei argraffu, (yn ddarostyngedig i'r hyn rwyf wedi nodi uchod hoffem gadw yn gyfrinachol) ar wefan S4C a'i rannu gyda'r ADCCh os na noder fel arall ar y ddalen flaen, ac rwy'n awdurdodi S4C a'r ADCCh i wneud defnydd o'r wybodaeth o fewn yr ymateb i gwrdd â gofynion cyfreithiol. Os mae'r ymateb hwn ar e bost, gall S4C anwybyddu unrhyw destun e bost safonol ynglŷn â pheidio datgelu cynnwys e bost ac atodiadau.

Enw GWERFYL PIERCE JONES **Arwyddwyd** (os yn gopi caled)

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn croesawu'n frwd gynlluniau S4C i gyflwyno sianel gwasanaeth cyhoeddus newydd yn Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifainc.

Rydym yn ymfalchïo yn y berthynas dda sydd rhwng Adran Blant y Cyngor Llyfrau ag Adran Gwasanaethau Plant ac Adran Farchnata S4C ac fe ellir cyfeirio at gydweithio pwrpasol ar brosiectau megis Bardd Plant Cymru; Gwobrau Tir na n-Og (y gwobrau ar gyfer llyfrau gorau'r flwyddyn ym maes llyfrau plant) a Diwrnod y Llyfr.

Byddai Sianel neilltuol i blant a chynnydd yn yr oriau darlledu yn cynnig cyfleoedd cyffrous ar gyfer cydweithio pellach: byddai'r cynnyrch teledu yn cynnig rhagor o gyfleoedd ar gyfer cyhoeddi llyfrau; yn yr un modd mae llawer o lyfrau plant y gellid eu haddasu'n llwyddiannus ar gyfer y teledu, yn enwedig ym maes ffuglen. Credwn fod y posibiliadau trawsgroesi rhwng gwahanol gyfryngau yn lleng: a bod angen archwilio'r posibiliadau o ddifri yn sgil y datblygiad cyffrous hwn.

Credwn hefyd y bydd y gwasanaeth newydd yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau atodol ym maes plant, yn arbennig felly yng nghyswllt marchnata rhaglenni a deunyddiau darllen i blant a phobl ifainc.

Rydym hefyd yn croesawu'r pwyslais ar wasanaeth cydgyfeiriol sy'n gwneud defnydd llawn o'r cyfryngau newydd a chan sicrhau bod y gwasanaeth ar gael mewn sawl ffurf dechnegol.

1 A ydych yn cytuno â'n barn y bydd y gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

Byddai'r gwasanaeth newydd yn bendant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i blant. Byddai'n gymorth i ddiogelu'r gwylwyr presennol ac i feithrin to o wylwyr newydd. Y mae'n gam anhepgor yng nghyd-destun datblygu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a sicrhau fod y Gymraeg ar dafod leferydd cenedlaethau newydd o blant a phobl ifainc.

2 A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

Credwn fod yr oriau darlledu o 15 awr y dydd (o 6.00 am i 21.00 pm) yn synhwyrol; cytunwn hefyd fod tair cynulleidfa benodol yn hawlio sylw o fewn y ddarpariaeth. Rydym yn rhannu'r amheuaeth a fydd yr oedran hŷn, sef y bobl ifainc yn eu harddegau, yn troi at sianel benodol ar gyfer plant ac fe ddylid rhoi ystyriaeth ofalus i hynny. Hefyd, fel y cydnabyddir yn y ddogfen, mae diwallu anghenion y farchnad hŷn yn gryn sialens gan ei bod yn farchnad soffistigedig iawn ac fe fydd y disgwyliadau'n uchel. Bydd darparu gwasanaeth adloniannol apelgar ar gyfer yr oedran 14-16 yn dra phwysig, ac fe fydd angen penderfynu ar ba sianel y dylid cynnwys y bloc hwn o raglenni. Diau y bydd rhai rhaglenni yn gallu croesi, a bydd angen hyblygrwydd wrth ystyried y posibiliadau.

3 Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarperir gan S4C?

Dylai'r pwyslais fod ar ragoriaeth ac ar ymestyn y ffiniau ac ehangu gorwelion.

Dylid darparu cymaint ag sy'n bosibl o raglenni gwreiddiol sy'n adlewyrchu bywyd bob dydd a diddordebau'r gynulleidfa darged.

Wrth brynu rhaglenni i mewn ar gyfer eu dybio (yn enwedig cyfresi meithrin llwyddiannus fel Bob y Bildar) dylid ymchwilio'n drylwyr er mwyn sicrhau bod y cyfresi gorau o'u math yn cael eu dewis, yn ddieithriad.

4 A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried ar y mater hwn?

Opsiwn 1 fyddai orau yn ein tyb ni, ond ar yr amod glir bod modd diogelu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol mewn modd boddhaol nad yw'n glastwreiddio'r ddarpariaeth bresennol. Oni ellir gwneud hynny, byddem yn ffafrio Opsiwn 2.

5 A ydych yn credu y byddai darparwyr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail fasnachol?

Mae'n annhebygol iawn y byddai darparwyr trydydd parti yn gallu darparu gwasanaeth teledu i blant a phobl ifainc ar sail fasnachol o'r un natur a'r un ansawdd ag a gynigir yma.

6 A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

Y mae'r rhestr yn ymddangos yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchiad o'r sefydliadau sy'n gweithio ym maes plant a phobl ifainc.